Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru

## A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan?

Mai 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru

## A all androidau Cymru freuddwydio am ddefaid trydan?

Mai 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **7**

**1. Cyflwyniad** .......... **9**

Y cefndir .......... 9

Beth yw deallusrwydd artiffisial? .......... 9

Maes sy'n symud yn gyflym – datblygiad diweddar .......... 10

**2. Mabwysiadu deallusrwydd artiffisial: goblygiadau i'r economi a busnesau** .......... **14**

Mabwysiadu deallusrwydd artiffisial .......... 14

Goblygiadau economaidd .......... 16

Arbenigo .......... 17

Cefnogi busnesau ac arloesedd .......... 18

Ein barn ni .......... 21

**3. Seilwaith deallusrwydd artiffisial** .......... **23**

Seilwaith .......... 23

Ein barn ni .......... 25

**4. Caffael** .......... **26**

Ein barn ni .......... 27

**5. Sgiliau a'r gweithlu** .......... **29**

Dadleoli swydd posibl .......... 29

Ansawdd swyddi .......... 30

Effeithiau ar gydraddoldeb a gwahaniaethu .......... 31

Sgiliau, hyfforddiant a datblygu'r gweithlu ....................32

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.................... 36**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.................... 37**

# Rhagair y Cadeirydd

Hwn oedd yr ymchwiliad olaf a oruchwyliwyd gan fy rhagflaenydd fel Cadeirydd, sef Paul Davies AS. Penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad undydd i edrych yn fanwl ar ddeallusrwydd artiffisial (AI) a'i effaith ar economi Cymru. Mae AI yn dechnoleg sy'n dod i'r amlwg a allai gael effaith sylweddol ar Gymru; hyd yma, fodd bynnag, ychydig iawn o feddwl sydd wedi bod am effaith AI ar ein cenedl, neu'r hyn y mae angen i lunwyr polisi ei wneud i fynd i'r afael â hi.

Er mai darn o waith byr a chryno oedd hwn, clywodd y Pwyllgor lawer o dystiolaeth ddiddorol. Roedd rhai elfennau'n gyffrous, fel y gweledigaethau o seilwaith AI cynaliadwy wedi'i bweru gan wynt yng Nghymru a'i oeri â'n dŵr môr. Roedd elfennau eraill yn fwy pryderus, fel yr effaith y gallai deallusrwydd artiffisial ei chael ar rai rhannau o'r gweithlu, a sut mae angen cefnogi'n rhagweithiol y rhai sy'n colli eu swyddi o ganlyniad i awtomeiddio.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r dystiolaeth honno i wneud wyth argymhelliad yn seiliedig ar sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer y newidiadau posibl a allai ddod yn sgil deallusrwydd artiffisial. Mae hyn yn cynnwys manteisio ar ddeallusrwydd artiffisial, er enghraifft drwy ddatblygu cynllun gweithredu arno, gan edrych ar sut y gall deallusrwydd artiffisial gefnogi busnesau yng Nghymru i addasu i fyd AI, a sut y gall gefnogi datblygiad busnesau deallusrwydd artiffisial yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion sydd â'r nod o liniaru effeithiau negyddol posibl AI, gan gynnwys sicrhau bod cefnogaeth ragweithiol i bobl mewn swyddi sydd fwyaf mewn perygl yn sgil AI, a datblygu polisi a chanllawiau cyfoes i gefnogi defnydd da ac i atal defnydd gwael o AI.

Mae teitl yr adroddiad hwn yn gyfeiriad at lyfr Philip K Dick y seiliwyd Blade Runner arno. I barhau â'r thema honno ac i ddiwygio dyfyniad enwog yn Blade Runner - mae AI naill ai'n fanteisiol neu yn berygl. Bydd angen i Lywodraeth Cymru asesu gwahanol gymwysiadau o ddeallusrwydd artiffisial a phenderfynu a fydd hynny yn fanteisiol, neu yn berygl. Pan mae'n fanteisiol, rhaid i Lywodraeth Cymru a busnesau yng Nghymru weithio i sicrhau y gallwn wneud yn fawr o'i effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, pan mae'n berygl, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i liniaru risgiau ac i sicrhau ein bod wedi paratoi.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Hoffwn hefyd ddiolch eto i Paul am ei waith yn cadeirio'r ymchwiliad hwn a'i holl waith ar y Pwyllgor.

**Andrew RT Davies,**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun gweithredu sy'n nodi'r dull y bydd yn ei gymryd i wneud y mwyaf o fanteision posibl deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys camau gweithredu penodol sy'n ymwneud â chefnogi busnesau a'r gweithlu, a datblygu seilwaith deallusrwydd artiffisial. ........... Tudalen 22

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa feysydd deallusrwydd artiffisial y mae'n credu bod gan Gymru fantais gystadleuol ynddynt, a sut y bydd yn cefnogi busnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn y meysydd arbenigol hyn i ddatblygu a thyfu. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa gymorth sydd ar gael i gefnogi busnesau i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial ac elwa ohono, a nodi ble mae bylchau'n bodoli. Yn sgil yr adolygiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cefnogi unrhyw barthau twf deallusrwydd artiffisial a ddatblygir yng Nghymru, gan gynnwys sut y bydd yn helpu i fynd i'r afael â chanlyniadau posibl o ran mwy o ddefnydd o ynni a dŵr. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir ymgorffori'r syniad o gaffael deallusrwydd artiffisial yn ei chanllawiau sydd ar ddod ar elfennau caffael cymdeithasol gyfrifol Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi pa feysydd, sectorau a grwpiau demograffig y mae dadleoli swyddi oherwydd deallusrwydd artiffisial fwyaf tebygol o gael effaith negyddol arnynt. Yn seiliedig ar ei chanfyddiadau, dylai weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a thargedu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer y grwpiau hyn. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru asesu pa sgiliau sydd eu hangen ar y gweithlu i alluogi Cymru i wneud y mwyaf o'r manteision posibl o ddeallusrwydd artiffisial, ac adolygu i ba raddau y mae gan y gweithlu a gweithlu'r dyfodol y sgiliau hyn. Lle nodir bylchau, dylai flaenoriaethu gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r addysg a'r sgiliau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r rhain. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ei chanllawiau presennol mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial a'r gweithle drwy:

- Weithio gyda phartneriaid i nodi pa ganllawiau pellach sydd eu hangen yn y sector cyhoeddus datganoledig mewn perthynas ag ansawdd swyddi a materion cydraddoldeb ynghylch deallusrwydd artiffisial a'r gweithle, a datblygu hyn.

- Ystyried pa ganllawiau deallusrwydd artiffisial a'r gweithle sydd eu hangen i gefnogi busnesau a gweithwyr y sector preifat, a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu hyn. ....................................................................................Tudalen 35

# 1. Cyflwyniad

## Y cefndir

**1.** Ym mis Hydref 2024, cytunodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') i gynnal ymchwiliad byr, archwiliadol i ddeallusrwydd artiffisial ac economi Cymru.[1]

**2.** Roedd cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn cynnwys ystyried:

- i ba raddau y mae busnesau yng Nghymru yn defnyddio deallusrwydd artiffisial ac yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol;
- pa gyfleoedd a risgiau economaidd posibl y gallai deallusrwydd artiffisial eu cyflwyno i Gymru, a sut y gallent amrywio ar draws gwahanol rannau o Gymru ac ar draws gwahanol sectorau;
- sut mae deallusrwydd artiffisial yn debygol o effeithio ar swyddi a gweithwyr yng Nghymru, a pha gamau y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU eu cymryd mewn ymateb i hynny; a
- pha sgiliau sy'n debygol o fod eu hangen o ganlyniad i ddefnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial yn y gweithle, a pha mor dda yw sefyllfa Cymru i ddarparu'r sgiliau hynny.

**3.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad rhwng 25 Hydref 2024 a 28 Tachwedd 2024, a chafwyd 14 o ymatebion. Dilynwyd hyn gan ddiwrnod o sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allweddol ar 5 Rhagfyr 2024.[2][3]

## Beth yw deallusrwydd artiffisial?

**4.** Mae deallusrwydd artiffisial yn derm a ddefnyddir yn eang ac yn aml mae'n golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. O ran diffiniad, mae sefydliad cenedlaethol y DU ar gyfer gwyddor data a deallusrwydd artiffisial, Sefydliad Alan Turing, yn dweud:

> *There is no accepted definition of artificial intelligence or 'AI' but the term is often used to describe when a machine or system performs*

[1] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Hydref 2024
[2] Gellir darllen yr ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law yn llawn ar dudalen yr ymgynghoriad
[3] Mae manylion am y sesiynau tystiolaeth lafar, gan gynnwys lincs i'r trawsgrifiadau a darllediadau Senedd.tv, ar gael ar dudalen y Pwyllgor ac yn Atodiad 1

> *tasks that would ordinarily require human (or other biological) brainpower to accomplish, such as making sense of spoken language, learning behaviours or solving problems.*[4]

**5.** Mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (a elwir weithiau'n GenAI) yn fath o ddeallusrwydd artiffisial y gellir ei ddefnyddio i greu cynnwys newydd fel testun, delweddau, sain a fideo. Mae Chat GPT, DeepSeek, Microsoft Co-Pilot a Midjourney i gyd yn fersiynau o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol ac mae yna ddi-rif o rai eraill. Diffinnir deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol gan Sefydliad Alan Turing fel:

> *… a type of artificial intelligence that involves creating new and original data or content. Unlike traditional AI models that rely on large datasets and algorithms to classify or predict outcomes, generative AI models are designed to learn the underlying patterns and structure of the data and generate novel outputs that mimic human creativity.*[5]

## Maes sy'n symud yn gyflym – datblygiad diweddar

**6.** Mae deallusrwydd artiffisial yn faes sy'n symud yn anhygoel o gyflym. Mae'r dystiolaeth a gymerwyd yn yr ymchwiliad hwn yn rhoi cipolwg ar ddeallusrwydd artiffisial ar y pryd ac mae'n bosibl bod elfennau wedi'u disodli. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu cyhoeddiadau polisi cyhoeddus lle bo'n berthnasol, fodd bynnag nid yw'r Pwyllgor wedi gofyn i dystion ddiweddaru eu tystiolaeth oherwydd natur gyflym datblygiad deallusrwydd artiffisial ac ymatebion polisi dilynol. Dyma drosolwg o rai datblygiadau polisi cyhoeddus allweddol diweddar yn y DU.

**7.** Ar 19 Rhagfyr, cyhoeddodd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, corff teirochrog sy'n cynnwys cyflogwyr datganoledig y sector cyhoeddus yng Nghymru, undebau llafur a Llywodraeth Cymru, adroddiad meincnodi ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial[6] yn y gwaith, a chanllawiau ar reoli technoleg sy'n rheoli pobl.[7] Darparwyd y rhain i'r Pwyllgor cyn eu cyhoeddi, i lywio'r sesiynau tystiolaeth a gynhaliodd y

---

[4] Turing.ac.uk, Cwestiynau cyffredin (Saesneg yn unig)
[5] Rigb.org Turning Lectures: What is generative AI? (Saesneg yn unig)
[6] Llywodraeth Cymru Defnyddio deallusrwydd artiffisial yn y gwaith
[7] Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, Rheoli technoleg sy'n rheoli pobl: Dull partneriaeth gymdeithasol o weithredu systemau rheoli algorithmig yn sector cyhoeddus Cymru, Rhagfyr 2024

Pwyllgor ar 5 Rhagfyr. Mae'r Aelodau'n ddiolchgar am gael gweld y dogfennau hyn ymlaen llaw ac wedi cyfeirio atynt wrth ddatblygu'r adroddiad hwn.

**8.** Ar 13 Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth y DU y Cynllun Gweithredu ar Gyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial a ddatblygwyd gan Matt Clifford, Cynghorydd Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial y Prif Weinidog. Gwnaeth y cynllun hwn 50 o argymhellion ac mae'r Llywodraeth wedi ymateb iddynt.[8] Trafodir y Cynllun Gweithredu a'r cyhoeddiad cysylltiedig ynghylch buddsoddiad mewn Canolfannau Data, gan gynnwys buddsoddiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn adran seilwaith yr adroddiad hwn.

**9.** Yn ogystal â'r cynllun gweithredu, mae Llywodraeth y DU wedi:

- Cyhoeddi bod 'AI Safety Institute' y DU wedi'i ailenwi'n 'AI Security Institute' y DU. Bydd ffocws y sefydliad ar fynd i'r afael â risgiau sydd â goblygiadau diogelwch, megis sut y gellir defnyddio'r dechnoleg i ddatblygu arfau cemegol neu fiolegol, a sut y gall alluogi troseddu. Bydd yn canolbwyntio ar y risgiau hyn yn hytrach na rhagfarn neu ryddid i lefaru;[9]

- Gohirio ei Bil Rheoleiddio Deallusrwydd Artiffisial disgwyliedig. Rhagwelwyd y byddai'r Bil yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd y llynedd; disgwylid i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i fodelau deallusrwydd artiffisial gael eu cyflwyno i'r Sefydliad Diogelwch Deallusrwydd Artiffisial i'w profi. Erbyn hyn, disgwylir y Bil hwn 'yn yr haf fan cynharaf', ac mae llai o eglurder ynghylch ei gynnwys;[10]

- Nodi'r uchelgais ar gyfer Bil Seiberddiogelwch a Chydnerthedd ar wahân sydd ar ddod. Yn ôl Llywodraeth y DU, gallai hyn gynnwys amddiffyniadau newydd ar gyfer dros 200 o ganolfannau data – gan gryfhau amddiffynfeydd un o brif ysgogwyr twf economaidd ac arloesedd, gan gynnwys drwy ddeallusrwydd artiffisial.[11]


[8] Llywodraeth y DU, Prime Minister sets out blueprint to turbocharge AI (Saesneg yn unig), Ionawr 2025
[9] Llywodraeth y DU, Tackling AI security risks to unleash growth and deliver Plan for Change (Saesneg yn unig), Chwefror 2025
[10] Computing Magazine, Government delays new AI Bill for six months (Saesneg yn unig), Chwefror 2025
[11] Llywodraeth y DU, New cyber laws to safeguard UK economy and secure long-term growth (Saesneg yn unig), Ebrill 2025

- Ni wnaeth Llywodraeth y DU, ochr yn ochr â'r Unol Daleithiau, lofnodi'r[12] datganiad Deallusrwydd Artiffisial Cynhwysol a Chynaliadwy[13], yn dilyn Uwchgynhadledd Gweithredu Deallusrwydd Artiffisial a gynhaliwyd ym Mharis rhwng 10 a 11 Chwefror.

- Llofnodi cytundeb gyda'r cwmni deallusrwydd artiffisial Anthropic sy'n cynnwys rhannu mewnwelediadau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, a defnyddio deallusrwydd artiffisial i yrru datblygiadau gwyddonol arloesol. Mae'n bwriadu gwneud cytundebau tebyg gyda chwmnïau deallusrwydd artiffisial blaenllaw eraill i hybu cynhyrchiant a thwf; a[14]

- Ffurfio Cyngor Ynni Deallusrwydd Artiffisial sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gwmnïau ynni, darparwyr seilwaith a chwmnïau technoleg sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial. Dywed Llywodraeth y DU fod y Cyngor yn canolbwyntio ar sut y gall cenhadaeth uwch-bŵer ynni glân Llywodraeth y DU, a'i hymrwymiad i ddatblygu seilwaith deallusrwydd artiffisial a chyfrifiadura, gydweithio i sicrhau twf economaidd.[15]

[12] BBC, UK and US refuse to sign international AI declaration (Saesneg yn unig)
[13] Elysee.Fr, Statement on Inclusive and Sustainable Artificial Intelligence for People and the Planet (Saesneg yn unig)
[14] Llywodraeth y DU, Memorandum of understanding between Anthropic and the UK Government on AI opportunities (Saesneg yn unig), Chwefror 2025
[15] Llywodraeth y DU, AI Energy Council to ensure UK's energy infrastructure ready for AI revolution (Saesneg yn unig), Ebrill 2025




## Deallusrwydd Artiffisial

“ystod o dechnolegau sy’n seiliedig ar algorithmau sy’n datrys tasgau cymhleth drwy gyflawni swyddogaethau a fyddai gynt yn gofyn gwaith meddwl dynol” – **Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth**



## Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

“math o ddeallusrwydd artiffisial sy’n cynnwys creu data neu gynnwys newydd a gwreiddiol” – **Sefydliad Alan Turing**



## Dysgu peirianyddol

“Math o Ddeallusrwydd Artiffisial sy’n caniatáu i system ddefnyddio enghreifftiau i ddysgu a gwella heb i’w holl gyfarwyddiadau gael eu rhaglennu yn benodol” - **POST**



## Canolfan ddata

“lleoliad ffisegol sy’n storio peiriannau cyfrifiadurol a’u cyfarpar caledwedd cysylltiedig” - **Gwasanaethau Gwe Amazon**



## Rhagfarn algorithmig

“pan fydd gwallau systematig mewn algorithmau dysgu peirianyddol yn arwain at ganlyniadau annheg neu wahaniaethol. Yn aml, mae’n adlewyrchu neu’n atgyfnerthu rhagfarnau ynghylch statws economaidd-gymdeithasol, hil a rhywedd sy’n bodoli eisoes”. – **IBM**

www.senedd.cymru

***Ffeithlun deallusrwydd artiffisial***

# 2. Mabwysiadu deallusrwydd artiffisial: goblygiadau i'r economi a busnesau

## Mabwysiadu deallusrwydd artiffisial

**10.** Canfu arolwg gan Ysgol Economeg Llundain a Chydffederasiwn Diwydiant Prydain fod tua chwarter o gwmnïau'r DU wedi buddsoddi mewn technolegau deallusrwydd artiffisial, a bod 23% arall yn bwriadu gwneud hynny. Canfu hefyd fod busnesau TG a marchnata a gwerthu yn fwyaf tebygol o fod wedi buddsoddi mewn technolegau deallusrwydd artiffisial.[16]

**11.** Canfu arolwg gan y Brifysgol Agored a Siambr Fasnach Prydain nad yw dros hanner y busnesau (56%) yng Nghymru yn hyderus ynghylch rhoi technolegau deallusrwydd artiffisial newydd ar waith.[17]

**12.** Y llynedd, canfu'r Ffederasiwn Busnesau Bach fod 20% o fusnesau bach a chanolig y DU yn defnyddio deallusrwydd artiffisial, a bod busnesau bach sy'n bwriadu cynyddu trosiant/gwerthiant dros 20% dros y 12 mis nesaf yn fwy tebygol o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Canfu'r Ffederasiwn fod busnesau bach a chanolig gwybodaeth a chyfathrebu, a chwmnïau yn y sectorau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial na busnesau bach a chanolig mewn sectorau eraill.[18]

**13.** Mae Bowen, Dowell a Morris yn dweud bod lefelau cymharol isel o fabwysiadu deallusrwydd artiffisial gan fusnesau bach a chanolig gwledig Cymru, ac yn tynnu sylw at y ffaith bod lefelau mabwysiadu deallusrwydd artiffisial gan fusnesau bach a chanolig Cymru yn is nag mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'n dadlau bod mabwysiadu deallusrwydd artiffisial mewn busnesau bach a chanolig gwledig Cymru yn raddol yn bennaf, ac y gall y dull hwn gael manteision dramatig i'r cwmnïau hyn a'u heconomïau cyfagos. Gallai ymwybyddiaeth gynyddol o fanteision deallusrwydd artiffisial arwain at fwy o fusnesau bach a chanolig gwledig yn mabwysiadu'r dechnoleg.[19]

---

[16] Ysgol Economeg Llundain, What an LSE-CBI survey found about AI adoption in UK firms (Saesneg yn unig), Gorffennaf 2024
[17] Y Brifysgol Agored, Bron i hanner busnesau Cymru yn adrodd prinder sgiliau ac yn brin o hyder ym maes deallusrwydd artiffisial a thechnoleg werdd, Mehefin 2024
[18] Y Ffederasiwn Busnesau Bach, Redefining Intelligence: The Growth of AI Among Small Firms (Saesneg yn unig), Mawrth 2024
[19] Ymchwil y Senedd, Deall deallusrwydd artiffisial mewn busnesau gwledig: cyfleoedd i Gymru, Ionawr 2025

Astudiaeth achos: AMPLYFI

Mae AMPLYFI yn gwmni deallusrwydd marchnad sy'n cael ei bweru gan ddeallusrwydd artiffisial sydd â'i bencadlys yng Nghaerdydd. Dywedodd wrthym:

"Amplyfi empower organisations to make better decisions through the analysis of high-quality content and unstructured data, to deliver business critical insights. This enhanced capability provides sustained advantages for our customers by delivering intelligence which is truly customised, structured and repeatable. Our team comprises experts in fields such as artificial intelligence, computer science and industry analysis.

Amplyfi's core offering is its Insights Automation Platform, built on the four pillars of content depth, content control, trustworthy AI and workflow integration. The platform is designed to "read and analyse" millions of documents weekly enabling our clients to make informed decisions, even amidst disruptive market conditions.

Amplyfi serves a diverse range of sectors, providing critical market intelligence to organisations across the globe. Our solutions are particularly valuable in industries that rely on accurate, timely information for strategic decision-making. These include:

- Finance
- Government
- Energy
- Professional Services / Consulting
- Legal
- Heavy Industry"

**14.** Nododd Dr Simon Thorne:

> *While there is likely strong enthusiasm to adopt this technology, many organisations face significant barriers, including:*
>
> - *Skill shortages: A lack of technical expertise to implement and use generative AI effectively.*

- *Governance gaps: The absence of robust frameworks to ensure safe and reliable use of the technology.*[20]

**15.** Tynnodd tystion sylw at ddiddordeb mewn mabwysiadu deallusrwydd artiffisial gan fusnesau mewn ystod eang o sectorau, gan gynnwys cyllid, technoleg, gwasanaethau proffesiynol, diwydiannau creadigol, gweithgynhyrchu, diogelwch a seiberddiogelwch, a chynaliadwyedd/sero net.

**16.** Dywedodd Delineate, cwmni ymchwil marchnad a brand sydd â'i bencadlys yn Llandysul, wrthym fod mabwysiadu deallusrwydd artiffisial a thechnoleg wedi'i wneud yn 'fusnes hyfyw', gan ganiatáu iddo gystadlu â chwmnïau llawer mwy ac ennill busnes gyda chleientiaid byd-eang. Fodd bynnag, rhybuddiodd:

> *… for many large, more traditional organisations in our industry that did not embrace technological change but offshored as a way of delivering a more cost-effective service to client, they will see a more negative impact.*[21]

**17.** Rhybuddiodd AMPLYFI, os bydd Cymru yn ymateb yn araf i ddeallusrwydd artiffisial, y bydd cyfleoedd a gollir yn cyflwyno risgiau economaidd, gan y bydd anfanteision yn tyfu o'i gymharu â gwledydd eraill sydd wedi mabwysiadu deallusrwydd artiffisial yn gyflymach.[22]

## Goblygiadau economaidd

**18.** Cytunodd academyddion y byddai mabwysiadu mwy o ddeallusrwydd artiffisial yn gwella cynhyrchiant.[23] Dywedodd yr Athro Alun Preece wrthym:

> *I feel very, very strongly that we are not talking about human replacement, at least not for the foreseeable future. It's really about what I'd prefer to call intelligence amplification, or intelligence augmentation, and a lot of that boils down to allowing people to do more with the resources that they have, rather than be put out of a job.*[24]

[20] Tystiolaeth ysgrifenedig: Dr Simon Thorne (Saesneg yn unig)
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig: Delineate (Saesneg yn unig)
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig: AMPLYFI (Saesneg yn unig)
[23] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 10-13
[24] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 10

**19.** Cytunodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod deallusrwydd artiffisial yn darparu 'cyfle cyffrous iawn' ar gyfer cynhyrchiant yn bennaf, a thwf posibl hefyd.[25]

**20.** Dywedodd AMPLYFI fod defnyddio deallusrwydd artiffisial:

> *… at maturity level 1, which is, essentially, where individuals are using it for personal productivity, and very high penetrations of that, across all age ranges. I think that what we're starting to see emerge is maturity level 2, which is where people are starting to adopt the technology into work flows to drive productivity into process, and that's delivered some immediate benefits, which we can talk more about. And I think we're starting to see maturity level 3 emerge, which is where systems get redesigned on the premise of what the technology can do in the future.*[26]

**21.** Dywedodd TUC Cymru y gellir gwireddu manteision cynhyrchiant deallusrwydd artiffisial yn llawn os yw gweithwyr ac undebau llafur yn rhan o'r broses o archwilio'r defnydd presennol o reolaeth algorithmig, gan fod yn rhan o'r broses gaffael, a'i monitro hefyd.[27]

## Arbenigo

**22.** Dywedodd AMPLYFI, gan fod deallusrwydd artiffisial yn faes rhy eang i Gymru gystadlu ag ef ar draws llawer o feysydd, fod angen arbenigo mewn meysydd penodol o'r gadwyn gyflenwi deallusrwydd artiffisial yn seiliedig ar alluoedd presennol. Mae'n awgrymu y gallai meysydd arbenigo posibl gynnwys seilwaith deallusrwydd artiffisial fel lled-ddargludyddion ac oeryddion dŵr cyfansawdd; defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy i bweru canolfannau data; llunio polisïau sy'n benodol i ganolfannau data er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni; a chanolbwyntio ar gymwysiadau byd-eang penodol sy'n ehangu'n gyflym ac sy'n sbarduno potensial allforio.[28]

**23.** Cytunodd Dr Morgan Jones y dylai Cymru ganolbwyntio ar feysydd lle gall arwain yn hytrach na dilyn. Dywedodd y dylai cynhyrchu ynni adnewyddadwy,

[25] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 130
[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 126
[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 330
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig, AMPLYFI (Saesneg yn unig)

datblygu economaidd gwledig a gwarchod y Gymraeg fod yn feysydd ffocws.[29] Teimlai Comisiynydd y Gymraeg hefyd fod deallusrwydd artiffisial yn cynnig “[c]yfle mawr i ehangu a gwella gwasanaethau Cymraeg ym mhob sector”. Nododd y bydd yn annog sefydliadau i fanteisio ar ddeallusrwydd artiffisial, gan reoli’r risgiau ar yr un pryd.[30]

## Cefnogi busnesau ac arloesedd

Astudiaeth achos – Canolfan Hartree Hwb Caerdydd




Agorodd Canolfan Hartree Hwb Caerdydd sydd wedi’i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd, yn 2023, ac mae’n darparu cefnogaeth deallusrwydd artiffisial a gwyddor data i fusnesau bach a chanolig sydd wedi’u lleoli o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Phorth y Gorllewin. Mae’n estyniad rhanbarthol o Ganolfan Genedlaethol Arloesi Digidol Hartree, sy’n rhan o Ymchwil ac Arloesi y DU. Mae hybiau Canolfan Hartree yn helpu busnesau i archwilio a mabwysiadu technolegau deallusrwydd artiffisial a dadansoddi data ar gyfer cynhyrchiant gwell, arloesi mwy craff, a chyflawni twf economaidd.

Mae’r ganolfan yn canolbwyntio ar dri maes o dechnoleg deallusrwydd artiffisial sy’n dod i’r amlwg - deallusrwydd artiffisial sy’n canolbwyntio ar bobl lle mae trawsnewid digidol yn cael ei gyflawni drwy gymysgedd o ddeallusrwydd dynol a pheirianyddol; modelau ieithoedd mawr; a dysgu sy’n cael ei yrru gan wybodaeth sy’n canolbwyntio ar sut y gall gwybodaeth ddynol wella dysgu peirianyddol, sydd wedyn yn cynhyrchu gwybodaeth newydd i yrru prosesau gwell ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Mae’r ganolfan yn cynnig tri math o gyfnewid gwybodaeth – ymgysylltu, cynorthwyo, a phrosiectau:

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Morgan Jones (Saesneg yn unig)
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd y Gymraeg

- Mae'r ymgysylltiadau'n cynnwys presenoldeb busnesau bach a chanolig mewn sesiynau briffio a rhwydweithio, gan gynnwys digwyddiadau 'Egluro deallusrwydd artiffisial';
- Mae cynorthwywyr yn darparu tua 12 awr o gymorth i fusnesau bach a chanolig i edrych ar broblem fusnes benodol neu fath penodol o dechnoleg; ac
- Mae prosiectau'n gydweithrediad rhwng 1 a 3 mis gyda busnesau bach a chanolig, gan eu galluogi i ddatblygu a phrofi syniadau penodol.

Fel rhan o'r cymorth a gynigir, mae busnesau bach a chanolig yn derbyn mynediad am ddim at ymchwil ac arbenigedd deallusrwydd artiffisial a gwyddor data ym Mhrifysgol Caerdydd.

Yn 2024, ymgysylltodd y ganolfan â 115 o fusnesau bach a chanolig, darparodd 1,300 awr o gymorth deallusrwydd artiffisial, ac ymrwymodd £125,000 o gymorth deallusrwydd artiffisial. Mae dros dri chwarter o'r busnesau bach a chanolig a gefnogir wedi'u lleoli yn ne Cymru. Mae'r prif sectorau y mae'r ganolfan wedi'u cefnogi yn cynnwys y sectorau creadigol, diogelwch, technoleg ariannol, technoleg feddygol a sero net.

**24.** Tynnodd nifer o dystion sylw at yr angen am fwy o gymorth i fusnesau fabwysiadu a deall deallusrwydd artiffisial. Dywedodd yr Athro Setchi fod angen cymorth a chyngor ymarferol, lle gallant fynd i siarad am syniadau ar fusnesau. Awgrymodd fod y canolfannau gwneuthurwyr a ddatblygwyd ar gyfer argraffu 3D yn enghraifft ddefnyddiol i'w dilyn.[31]

**25.** Nododd CreuTech:

> *There are not enough places where people can learn how to use it and bring that into their businesses, but it's also making sure that they're finding the right places that are giving them the right information that is ethical in its use as well.*[32]

**26.** Tynnodd yr Athro Preece sylw at fwlch yn y farchnad yn dilyn y cymorth cychwynnol y mae cyrff fel Canolfan Hartree yn ei ddarparu. Dywedodd, ar ôl hyn,

[31] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 100
[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 137

fod busnesau'n ddibynnol ar ffynonellau cymorth fel Innovate UK a phartneriaethau trosglwyddo gwybodaeth, ond bod y rhain braidd yn anghyson.[33]

**27.** Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wrthym fod angen i gymorth busnes gael ei alinio'n well â datgloi seilwaith digidol, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial. Roedd yn awgrymu ystyried sut y gellid gwneud hyn fel rhan o asiantaeth datblygu economaidd.[34]

**28.** Roedd galwadau hefyd am ddull cydgysylltiedig a strategol o gefnogi busnesau a sectorau deallusrwydd artiffisial yn fwy cyffredinol. Dywedodd yr Athro Preece fod y sector creadigol yn cynnig model y gellid ei ddefnyddio o bosibl fel canllaw ar gyfer cymorth busnes deallusrwydd artiffisial. Dywedodd wrthym ei fod yn darparu cyllid sbarduno cydgysylltiedig, cyllid datblygu, cyllid ehangu, gan adlewyrchu llwybrau cwmnïau.[35]

**29.** Dywedodd AMPLYFI wrthym:

> *There are essentially three pillars that any sector needs to flourish. The first is access to talent, the second is access to capital, and the third is access to market.*[36]

**30.** Ychwanegodd fod angen strategaeth glir ar gyfer pob un o'r haenau hyn, oherwydd er bod Cymru yn gwneud y rhan fwyaf o'r pethau cywir, cred nad yw'n eu gwneud mewn ffordd gydgysylltiedig a strategol. Awgrymodd fod angen i feysydd ffocws fod yn datblygu cymorth wedi'i dargedu, drwy roi llwybr arbennig sy'n rhoi rhai manteision penodol, i gyfleoedd sydd â photensial uchel; a darparu mwy o gymorth mewn perthynas â chael mynediad i'r farchnad.[37]

**31.** Dadleuodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod angen i Lywodraeth Cymru helpu i fynd i'r afael â'r bwlch ymchwil a datblygu mewn perthynas â deallusrwydd artiffisial, ac awgrymodd y dylai ystyried pa adnoddau sydd ganddo i ddenu cwmnïau technoleg mawr i leoli eu pencadlysoedd yng Nghymru, er mwyn creu ecosystem ehangach sy'n cefnogi gwaith ymchwil academaidd a phrosiectau peilot diwydiant. Dywedodd wrthym:

---

[33] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 105
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig: Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (Saesneg yn unig)
[35] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 104
[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 205
[37] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 206

> *... building up that broader ecosystem will help to sell Wales as the place to do that investment, and it will help, hopefully—. It should really be convincing UK Government that Wales is the best place to be doing it.*[38]

**32.** Nododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd fod banciau buddsoddi a datblygu mewn gwledydd eraill yn defnyddio systemau rheoli gwybodaeth deallusrwydd artiffisial i ddadansoddi data a gyflwynir gan fusnesau bach a chanolig sy'n gwneud cais am gyllid ecwiti a benthyciadau. Galwodd ar Fanc Datblygu Cymru i wneud mwy o ddefnydd o'r dechnoleg hon i wella sut mae rheolwyr cyfrifon yn rhyngweithio â busnesau, ac er mwyn gwneud penderfyniadau strategol gwell.[39]

## Ein barn ni

Mae'n amlwg bod deallusrwydd artiffisial yn cynnig y cyfle i gynyddu cynhyrchiant a thwf economaidd, ac mae angen i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle i gefnogi busnesau a gweithwyr i gyflawni hyn mewn ffordd gydgysylltiedig, strategol. O fewn chwe mis i gwblhau ei hadolygiad byrdymor o ddeallusrwydd artiffisial a'r economi, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i wneud y mwyaf o fanteision economaidd deallusrwydd artiffisial. Dylai hyn gynnwys camau gweithredu penodol i gynorthwyo busnesau i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial ac elwa ohono, cynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu'r seilwaith deallusrwydd artiffisial angenrheidiol, a chefnogi'r gweithlu drwy ddatblygu sgiliau ac ailhyfforddi'r rhai sydd mewn perygl o gael eu disodli o'u swyddi.

Mae deallusrwydd artiffisial yn faes eang, ac mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant i ddeall pa agweddau y gall Cymru gymryd yr awenau ynddynt. Dylai nodi pa feysydd y mae'n credu bod gan Gymru fantais gystadleuol ynddynt, a sut y bydd yn cefnogi busnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn y meysydd hyn i ddatblygu a thyfu. Rydym wedi clywed tystiolaeth y gallai meysydd posibl ar gyfer arbenigo gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy i bweru canolfannau data, canolbwyntio ar gymwysiadau byd-eang penodol sy'n sbarduno potensial allforio, a datblygu economaidd gwledig.

[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 187
[39] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 238

